# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**
Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Chwefror 2017
Amser: 09.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.45-10.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i reoli ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru: cyflwyniad gan academyddion

(10.15-11.15) (Tudalennau 1 - 18)

Tim Glover, Blue Marine Foundation
Dr Sue Gubbay, Ymgynghorydd ar yr Amgylchedd Forol
Yr Athro Lynda Warren, Prifysgol Aberystwyth
Steve Fletcher, Pennaeth y Rhaglen Forol, Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig - Canolfan Monitro Cadwraeth y Byd (UNEP-WCMC) a'r Athro Cyswllt mewn Polisi Morol, Prifysgol Plymouth.

## Egwyl

(11.15-11.30)

## 3 Ymchwiliad i ddyfodol polisïau amaethyddiaeth a datblygu gwledig yng Nghymru: craffu ar Lywodraeth Cymru

(11.30-12.30) (Tudalennau 19 - 30)

Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Andrew Slade, Cyfarwyddwr, Amaeth, Bwyd a'r Môr

Kevin Austin, Dirprwy Bennaeth Yr Is-adran Amaeth, Cynaliadwyedd a Datblygu

Rhodri Asby, Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-Adran Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol

## 4 Papur(au) i'w nodi

**Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar ddefnyddio maglau yng Nghymru**

(Tudalennau 31 - 34)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6

## 6 Trafod y dystiolaeth

(12.30-12.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/LG/0125/17

Mark Reckless AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCCERA@assembly.wales

18 Ionawr 2017

Annwyl Mark

Ymhellach i'm presenoldeb â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 14 Rhagfyr 2016 i drafod defnyddio maglau yng Nghymru. Diolch i chi am y cwestiynau dilynol gan aelodau'r Pwyllgor, gweler isod, rwy'n eu hateb yn y drefn y cawsant eu gofyn.

**1. Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gasglu data penodol i Gymru am werthiant maglau a'u defnydd (yn unol â'r cod ac fel arall).**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid gydol y broses o ddatblygu a chynnal Cod Arferion Gorau ar ddefnyddio maglau i reoli cadnoid (llwynogod). Yn eu plith y mae'r heddlu sy'n ymchwilio i droseddau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n ymwneud â maglau. Rydym wedi gofyn iddyn nhw am wybodaeth am achosion o gydymffurfio â'r Cod ac o fynd yn groes iddo. Rydym hefyd yn siarad â phrif werthwyr maglau yng Nghymru a'u cyflenwyr ynghylch ffigurau gwerthiant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. **Beth yw barn Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch dulliau eraill o reoli plâu y gallai Llywodraeth Cymru eu hyrwyddo?**

Mae'r Cod Arferion Gorau yn ei gwneud yn glir na ddylid ystyried dal cadno â magl ond fel dewis olaf, hynny ar ôl ystyried pob opsiwn arall. Mae'r Cod yn cynnig dolen i daflen wybodaeth rydym wedi'i chynhyrchu am ddulliau o reoli cadnoid mewn ardaloedd gwledig sy'n eu lladd ac sydd ddim yn eu lladd. Cyhoeddir y daflen ar ein gwefan yn www/cymru.llyw/rheolibywydgwyllt

3. **Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â maglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod?**

Rydym wrthi'n trafod gyda'r busnes sy'n cyflenwi 95% o'r maglau a werthir i siopau ffermwyr yng Nghymru. Mae e'n gweithio gyda'i gynhyrchydd maglau i greu dyluniad gwell inni. Rydyn ni wedi gofyn i'r sector hela am eu barn am y magl a'i asesu i weld a yw'n cydymffurfio â'r Cod. O wneud, rydyn ni wedi gweld agweddau y gellid eu gwella. Mae'r cyflenwr wrthi'n ystyried ein sylwadau ac yn gweithio gyda'i gynhyrchydd i greu magl newydd inni allu ei gloriannu yng nghanol mis Chwefror. Os bydd y magl yn anfoddhaol, ein bwriad yw cwrdd â'r cyflenwr a'r cynhyrchydd i drafod y diffygion. Rydyn ni wedi pwysleisio hefyd wrth gyflenwyr a siopau ei bod yn bwysig bod maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod ar gael yn rhwydd, a thrwy bartïon â diddordeb, rydym wedi bod yn hyrwyddo'r Cod a hyrwyddo defnyddio maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod.

4. **A oes hawl defnyddio maglau ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio maglau ar ei ystâd coetiroedd ac nid yw'n annog eu defnyddio.

5. **Beth yw barn Ysgrifennydd y Cabinet am 'Review of Wildlife Protection Legislation' Comisiwn y Gyfraith yn 2015. Ydy Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â chasgliad yr adroddiad y dylid cael rheolaeth dynnach ar faglau dirwyn?**

Caiff adroddiad Comisiwn y Gyfraith ei ddefnyddio i helpu i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt yng Nghymru. Mae'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad i ddefnyddio magl cloi. Yn fy marn i, mae'r Cod Arferion Gorau yn rhoi arweiniad clir ar sut i ddefnyddio ac archwilio maglau. Ein hamcan ni yw sicrhau bod maglau dirwyn yn cael eu defnyddio'n unol â'n Cod Arferion Gorau ar faglau.

6. **Sut mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio maglau i reoli cadnoid yn cael ei asesu? Sut mae lefelau cydymffurfio'n cael eu monitro a beth yw'r cosbau am beidio â chydymffurfio?**

Rydym wedi cwrdd â llawer o fudiadau sydd â diddordeb mewn maglau ac mae llawer o'r grwpiau hyn wedi bod yn hyrwyddo ac yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio maglau a'r Cod. Rydym yn gweithio â nhw i ddarparu tystiolaeth am gydymffurfiaeth â'r Cod a sut i ddefnyddio maglau'n well. Nid yw peidio â chydymffurfio â'r Cod yn drosedd ynddo'i hun, ond gallai llys farnu bod rhywun yn ategol o weld nad yw wedi cadw at y Cod.

7. **Beth yw statws Cod Arferion Gorau Llywodraeth Cymru? Yn ôl llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at Gadeirydd CCERA, mae'n god statudol o dan Adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, tra bo'r RSPCA a LACS yn ystyried mai mater gwirfoddol yw cydymffurfio â'r Cod.**

Cafodd y Cod ei wneud o dan Adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ac er nad yw peidio â dilyn y Cod yn drosedd, gallai llys farnu bod rhywun yn ategol o weld nad yw wedi cadw at y Cod.

8. **Ydy Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod rheswm dros gyflwyno gofynion ychwanegol, fel ag y gwnaed yn yr Alban, fel hyfforddiant ar gyfer defnyddio maglau a gosod tagiau ar faglau i gael hyd i'r perchennog?**

Mae'r Alban wedi creu deddfwriaeth ychwanegol ynghylch maglau trwy Wildlife and Natural Environment (Scotland) Act 2011. Mae gofyn gosod 'stopiau' ar faglau ac mae gofyn i ddefnyddwyr fynd ar gwrs hyfforddi a chofrestru rhif adnabod personol y mae'n rhaid ei ddangos ar y magl unigol. Rydym ni'n deall bod Llywodraeth yr Alban am adolygu'r trefniadau hyn cyn hir a bydd diddordeb gen i weld a fydd y mesurau ychwanegol hyn wedi codi safonau maglu.

9. **Ydy Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithio gyda phrif gyflenwyr maglau i hyrwyddo maglau sy'n cydymffurfio â'r cod?**

Ydy, rydyn ni wrthi'n trafod yr opsiynau gyda'r cwmni sy'n cyflenwi 95% o'r maglau i siopau ffermwyr yng Nghymru. Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod maglau sy'n cydymffurfio â'r cod yn rhwydd eu cael. Mae'r cyflenwr wedi awgrymu newid ychydig ar ei fagl presennol ac rydym yn gweithio gyda'r cyflenwr i sicrhau bod hyn yn arwain at werthu magl sy'n cydymffurfio â'r Cod.

10. **Pa hyfforddiant sydd ar gael yng Nghymru ar ddefnyddio maglau sy'n cydymffurfio â'r cod ac a yw Llywodraeth Cymru'n ystyried darparu mwy?**

Mae'r Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt wedi bod yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio maglau a'r Cod. Maen nhw wedi cadarnhau bod hyfforddiant ar gael o ofyn amdano.

Rwy'n credu bod y ffordd rydym yn trin ein hanifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Cafodd y Cod ei ddatblygu i wella safonau lles anifeiliaid ac rwyf wrthi'n adolygu'r Cod a'i effeithiolrwydd yng Nghymru i wneud yn siŵr ei fod yn bodloni'r gofyn hwn.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs